# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Alltcafan

**Ysgol Bryn Saron**
**Saron**
**Llandysul**
**Sir Gâr**
**SA44 5EB**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Alltcafan

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Alltcafan |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Eleanor Smallcombe |
| Person â gofal | Carol Davies Williams |
| Nifer y lleoedd | 18 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 1 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Mawrth - Ddydd Gwener 9yb tan 12yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 27 Chwefror 2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/09/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau'n effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn natblygiad y plant

A2 Datblygu mwy o gyfleoedd i blant ddysgu am wahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth

A3 Sicrhau bod gweithdrefnau hunanwerthuso yn cynnwys yr holl randdeiliaid wrth adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob plentyn yn teimlo'n hapus ac yn ymdopi'n dda wrth gyrraedd a gadael eu rhieni a gofalwyr. Maent yn hyderus wrth wneud dewisiadau a chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau ar draws y ddarpariaeth. Maent yn gwybod bod eu dymuniadau yn cael eu parchu gan ymarferwyr. Mae'r plant yn defnyddio'r adnoddau gwahanol yn ddyfeisgar, megis wrth fynd â chwistrellwyr o'r twba dŵr i ddyfrio'r planhigion.

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn dda wrth rannu eu teimladau a'u dymuniadau, er enghraifft drwy ddewis ble i eistedd amser bwyd, neu barhau i ymgolli yn eu chwarae. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol â'r ymarferwyr. Wrth gyrraedd y lleoliad, mae plant yn derbyn cysur gan ymarferwyr cyn mynd ati i chwarae'n gartrefol. Mae llawer yn datblygu moesau da, er enghraifft wrth ddiolch am eu ffrwythau adeg byrbryd.

Mae'r plant yn datblygu perthynas dda â'u cyfoedion. Maent yn sgwrsio'n naturiol am eu teuluoedd wrth eistedd wrth y bwrdd i gael bwyd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos parch a sensitifrwydd tuag at eu ffrindiau. Maent yn rhannu adnoddau ac yn datblygu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth sicrhau bod gan eu ffrindiau gar rheoli digidol er mwyn ymuno yn yr hwyl. Mae llawer o blant yn gwenu'n hapus ac yn dangos balchder wrth i'r ymarferwyr roi clod iddynt.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau sylweddol yn unol â'u hoed a'u gallu wrth ymgymryd â thasgau arbrofi a gwaith celf. Maent yn canolbwyntio'n dda wrth ymgolli yn eu profiadau chwarae dŵr ac wrth wneud cacennau gydag adnoddau naturiol megis concyrs, conau pinwydd a mwd.

Pan fyddant yn cael cyfle, mae'r plant yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn briodol. Maent yn dewis gweithgareddau o'u gwirfodd ac yn dilyn eu diddordebau'n effeithiol, er enghraifft wrth ddewis paent a ffrwythau pan fyddant yn printio siapiau. Mae bron bob plentyn yn arllwys dŵr a llaeth eu hunain, ac yn torri ffrwythau heb gymorth oedolion yn ddiogel adeg byrbryd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn diwallu eu hanghenion personol yn llwyddiannus.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch a goruchwyliaeth yn barhaus. Maent yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod y plant yn iach ac yn ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes pryderon am les y plant. Mae pob un ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant diogelu a nifer digonol wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatreg a hylendid bwyd. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau cyfredol er mwyn atal lledaenu heintiau; er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i olchi eu dwylo cyn bwyta. Maent yn sicrhau bod byrddau'n cael eu glanhau'n drwyadl gyda hylif diheintio cyn i blant eistedd a bwyta. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid addas ar gyfer newid cewyn ac ar adegau pan mae ymarferwyr yn paratoi bwyd i blant.

Mae'r ymarferwyr wedi ffurfio perthynas gadarn â'r plant. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn ymateb yn feddylgar i anghenion a diddordebau'r plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau cyson i hybu ymddygiadau cadarnhaol yn unol â'r polisi. Maent yn annog y plant i fod yn ofalus wrth ddringo a chynnig esboniadau iddynt wrth fesur risgiau. Mae'r ymarferwyr yn annog datblygiad medrau cymdeithasol y plant yn effeithiol drwy fanteisio ar sgyrsiau difyr am ffermio neu am aelodau'r teulu. Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol. Maent yn annog plant i ofyn yn gwrtais ac i ddiolch am eu bwydydd a'u diodydd. Darperir cerddoriaeth ac awyrgylch Gymreig wrth groesawu'r plant yn y bore. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn barhaus wrth iddynt helpu i dacluso a chyflawni tasgau o'u dewis personol.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol y plant, gan gynnwys plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn cydnabod diddordebau ac anghenion datblygiadol y plant. Maent yn diwallu eu camau nesaf drwy chwarae ac ymestyn eu profiadau archwilio a

darganfod, er enghraifft, wrth cyd-chwarae yn y twba magnetau gan ddyfalu a darganfod pa wrthrychau oedd yn cael eu hatynnu at y magnetau. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i gyfeirio plant yn amserol er mwyn cael cyngor a chymorth ychwanegol gan asiantaethau allanol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu amrywiol a diddorol sy'n llwyddo i ennyn diddordeb a bodloni anghenion plant yn llwyddiannus. Maent yn darparu amrediad eang o adnoddau sy'n sbarduno dychymyg y plant yn rheolaidd. Ar y cyfan, mae'r sesiynau yn cynnal eu diddordeb am gyfnodau estynedig, yn unol â'u cam datblygiad, er enghraifft wrth i'r plant ymroi'n llwyr i chwarae yn yr ysbyty gan lapio rhwymau arnynt eu hunain a'i gilydd yn ofalgar.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'r ffordd mae'r plant yn dysgu drwy chwarae ac arbrofi, ac mae eu dulliau addysgu yn llwyddo i ysgogi'r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau yn bwrpasol. Maent yn rhyngweithio'n hyfryd â'r plant ac yn eu hadnabod yn dda. Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Maent yn trafod dealltwriaeth, llwyddiannau ac anghenion y plant yn rheolaidd. Maent wedi dechrau cynnal arsylwadau gan ganolbwyntio ar gyflawniad y plant. Er hyn, nid ydynt eto'n defnyddio'r arsylwadau yn ddigon pwrpasol i fwydo'r cynllunio ac i lywio'r camau nesaf yn eu dysgu, eu datblygiad a'u chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn annog datblygiad llafar Cymraeg y plant yn dda. Maent yn cynnal trafodaethau synhwyrol ac yn dilyn diddordebau'r plant yn effeithiol. Lle mae'r arfer hon ar ei gorau, mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith effeithiol ac yn bwydo geirfa'n llwyddiannus i ddatblygu dealltwriaeth y plant o'r iaith. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn ymestyn iaith y plant wrth chwarae yn yr ardal fferm neu wrth gyd-ganu caneuon cyfarwydd yn hwyliog. O ganlyniad, mae'r plant yn arddangos dealltwriaeth gynyddol o'r Gymraeg, ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn aeddfed. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod llyfrau deniadol wedi eu lleoli mewn nifer o ardaloedd ac mae'r plant yn eu dewis yn hyderus. Maent yn gofyn i ymarferwr ddarllen iddynt, neu'n eistedd yn gyfforddus i 'ddarllen' eu hunain drwy ailadrodd stori gyfarwydd neu greu stori newydd o'u dychymyg.

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod effeithiol o adnoddau i hybu medrau rhifedd y plant. Maent yn darparu offer megis cynhwysyddion gwahanol yn y twba dŵr neu adnoddau sy'n galluogi'r plant i gyfri hyd at 10 yn llwyddiannus. Maent yn manteisio ar chwilfrydedd y plant i chwarae ac arbrofi yn yr ardaloedd ac yn ehangu eu medrau rhifedd wrth wneud hynny.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hybu medrau digidol cynnar y plant drwy ddefnyddio teganau rhaglenadwy a thiliau i gyfri arian yn y siop. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod offer digidol yn rhan annatod o'u bywydau pob dydd.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ymwybodol iawn o'u hardal leol a'u cynefin. Maent yn casglu mwyar duon mewn cae cyfagos ac yn dosbarthu pamffledi i gartrefi y pentref yn eu hysbysu am ddigwyddiad codi arian. Maent yn dod i adnabod trefi a phentrefi yr ardal drwy deithiau i'r traeth ac i atyniadau lleol. Mae'r ymarferwyr

yn ymyrryd yn sensitif ac yn rhesymu'n gall ar yr adegau prin pan mae plant yn anghytuno â'i gilydd neu eisiau chwarae â'r un offer. O ganlyniad, mae gan blant ddealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd gonestrwydd, tegwch a pharch.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u hunaniaeth Gymreig yn addas drwy ddarparu gweithgareddau ac adnoddau priodol wrth ddathlu dydd Gŵyl Dewi a chanu rhigymau traddodiadol yn rheolaidd. Maent yn sicrhau bod adnoddau a llyfrau ar gael sy'n cynrychioli pobl o gefndiroedd gwahanol, ond prin yw'r cyfleoedd i blant ddysgu am y byd ehangach, amrywiaeth a diwylliannau eraill.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch yn barhaus. Maent yn sicrhau gweithdrefnau cadarn ac yn cwblhau asesiadau risg trylwyr sy'n amlinellu'r peryglon posibl a'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau neu atal risg i blant. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol i sicrhau nad oes peryglon amlwg yn bodoli.

Mae'r lleoliad yn ddiogel, yn groesawgar, yn hygyrch ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n effeithiol. Mae'r ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan yn eang ac yn ennyn diddordebau'r plant i ddarganfod ac archwilio wrth chwarae'n rhydd. Mae'r arweinwyr yn darparu ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd i blant ddatblygu medrau corfforol, cymdeithasol, ieithyddol, mathemategol a moesol. Ceir adnoddau naturiol, synhwyraidd a bwyd 'go iawn,' sy'n ennyn diddordeb y plant wrth chwarae rôl ac yn ymestyn eu dychymyg.

Mae arddangosfeydd lliwgar, sy'n llawn o waith crefft a ffotograffau'r plant, yn rhoi ymdeimlad cryf o berthyn iddynt. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr adnoddau o fewn cyrraedd plant er mwyn iddynt allu eu dewis a'u dethol eu hunain. Maent yn darparu amgylchedd sy'n hybu datblygiad cymdeithasol y plant yn effeithiol, er enghraifft drwy gynnig dodrefn addas i blant fwynhau eu byrbrydau gyda'u ffrindiau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu'n llwyddiannus wrth ddefnyddio'r tŷ bach. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod ardaloedd ar gyfer amseroedd tawel yn yr ardal tu mewn ac yn cynnig cyfleoedd i blant ddewis chwarae tu mewn a thu allan yn rhwydd.

Mae'r arweinwyr yn darparu nifer da o adnoddau safonol ac amrywiol, er enghraifft offer adeiladu a chwarae byd bach, sydd wedi eu trefnu'n bwrpasol ar gyfer y plant yn unol â'u diddordebau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol**

Mae gan y person â gofal weledigaeth gadarn ar gyfer y lleoliad, sy'n cael ei chyfleu'n glir yn y datganiad o ddiben. Mae hapusrwydd a diogelwch bob plentyn wrth wraidd ethos y lleoliad. Gyda chefnogaeth yr ymarferwyr, mae'n gwireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gan sicrhau gofal o safon uchel. Mae'r person â gofal yn ymroddgar iawn i'w gwaith, ac mae'r tîm cyfan yn cydweithio'n effeithiol er lles y plant. Mae'r arweinwyr wedi llunio polisiau priodol, sy'n cael eu gweithredu'n ymarferol. Mae'r arweinwyr yn dilyn polisïau recriwtio diogel a chadarn ac mae gan bob ymarferydd gymhwyster priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant.

Mae'r person â gofal yn adnabod y lleoliad yn dda, a gyda chymorth agos athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol, mae'n cynnal amrediad addas o weithgareddau hunanwerthuso er mwyn adnabod yr elfennau sydd angen eu datblygu ymhellach. Fodd bynnag, nid ydynt o hyd yn ystyried barn yr holl randdeiliaid wrth werthuso eu cryfderau ac wrth gynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r blaenoriaethau gwella wedi eu rhannu'n gamau synhwyrol, ac mae'r arweinwyr yn eu gwerthuso'n achlysurol. Er enghraifft, mae'r arweinwyr wedi gweithio'n ddiwyd ar fodelu a bwydo iaith goeth yn rheolaidd i'r plant, ac mae hyn yn cael ei weithredu'n llwyddiannus yn y lleoliad.

Mae'r pwyllgor yn gefnogol iawn i'r ymarferwyr ac maent yn gweithredu'n rhagweithiol ac yn gadarn, pan fo angen. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol ac yn rhoi'r plant yn gyntaf yn eu penderfyniadau. Maent yn ymwybodol o gryfderau'r lleoliad ac agweddau y gellir eu cryfhau, er enghraifft cyfoethogi'r ardal allanol.

Mae pob ymarferydd yn ymgymryd yn gydwybodol mewn cyfleoedd datblygiad proffesiynol buddiol, fel mynychu cyrsiau hyfforddi a argymhellir gan yr awdurdod lleol. Golyga hyn fod ganddynt well dealltwriaeth a mwy o hyder wrth ddiwallu gofynion y Cwricwlwm.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth gynhyrchiol iawn â'r ysgol y mae wedi ei lleoli ynddi. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o dir yr ysgol ac yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio â staff yr ysgol pan fydd yn briodol, er enghraifft wrth wahodd y cogydd i greu kebab ffrwythau gyda'r plant. Mae'r trefniadau pontio cynhwysfawr, gan gynnwys ymweliadau rheolaidd athrawes y dosbarth derbyn, yn gymorth mawr i'r plant wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol.

Mae gan arweinwyr berthynas waith fuddiol ag athrawon cysylltiol yr awdurdod addysg lleol. Mae'r berthynas hon yn aeddfed ac yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad y ddarpariaeth dros amser. Mae'r ymarferwyr wedi creu perthynas agos a chefnogol â rhieni a gofalwyr. Maent yn rhannu gwybodaeth yn gyson ac yn darparu adnoddau defnyddiol yn achlysurol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn darparu llyfrynnau i blant ymarfer eu geirfa Gymraeg a chryfhau eu dealltwriaeth o liwiau, rhifau a dyddiau'r wythnos adref. Mae'r person â gofal yn sicrhau bod y lleoliad yn chwarae rôl amlwg yn y gymuned, drwy fentrau codi arian fel y daith tractor flynyddol. Mae rhanddeiliaid y lleoliad yn rhan annatod wrth drefnu a chefnogi'r digwyddiad gan godi swm sylweddol o arian sy'n cael ei wario ar adnoddau i'r plant.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 20 | The Responsible Individual must ensure the Designated Safeguarding Officer correctly implements the safeguarding policy to safeguard children and ensure all staff are fully aware of their responsibilities to safeguard children. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 28 | The Responsible Individual must ensure all suitability checks are completed for all staff and volunteers who work with and care for children, in a timely manner. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/11/2024